

Yn barod i fynd

“... y mae arnaf awydd ymadael a bod gyda Christ,... ond y mae aros yn fy nghnawd yn fwy angenrheidiol er eich mwyn chwi.” (adn. 23–24)

Beth am ddarllen Philipiaid 1:12–26 ac yna myfyrio

Drwy hanes yr Eglwys, mae pobl yr Arglwydd wedi eu cysuro wrth wynebu anawsterau gan yr addewid am nefoedd. Sut, er enghraifft, y bu i'r caethweision yn yr Amerig ddioddef eu gorthwrwm? Mae'r caneuon y bu iddynt eu cyfansoddi yn rhoi awgrym i ni. Buasent yn canu yn aml am yr addewid o'r nefoedd. Roedd yn addewid y byddent, un diwrnod, yn cael bod gyda Iesu mewn byd perffaith. Roedd yr addewid yma yn cael dylanwad grymus ar eu bywyd yn y byd presennol, gan eu galluogi i ddelio â'r anawsterau, oherwydd bod yr addewid yn rhoi iddyn nhw obaith. Mae'n debyg iawn i'r meddyg sydd yn dweud wrth wraig: “Ychydig o boen, ac yna fe ddaw y baban i dy freichiau.”

O'n blaen y mae'r nefoedd, ac yn y nefoedd lawenydd sydd y tu hwnt i'n disgrifiad ni. Mae Paul yn dweud wrthym yn yr adran heddiw ei fod yn hiraethu am gael mynediad i'r nefoedd, ond gan fod ei arhosiad yn y byd yn angenrheidiol, mae'n barod i aros. Clywais un pregethwr yn dweud fod Paul yn awyddus i fynd ond yn barod i aros. Yr ydym ni yn awyddus i fynd ond yn barod i aros. A ydych wedi sylwi pa mor aml mae Paul yn defnyddio gobaith y nefoedd i'w gynorthwyo i wynebu anawsterau ei fywyd? Meddyliwch am y geiriau yn Rhufeiniaid 8:18. “Yr wyf fi'n cyfrif nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni.”

Dywedodd ffrind unwaith: “Yma ar y ddaear mae rhywbeth o'i le ar bopeth; yn y nefoedd ni fydd dim o'i le ar ddim.” Yma yr ydym yn teithio, yno yr ydym yn perthyn. Rwyf am ddal y byddwn yn cyflawni'r holl waith sydd ar ein cyfer yn y byd yma gyda sêl a brwdfrydedd, oherwydd trwy ffydd ein bod yn gweld y nefoedd o'n blaen.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 24:1–16; Diar. 14:32; Titus 2:11–15

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd tystiolaeth Paul gerbron Ffelix?
2. Sut ddylem fyw heddiw yng ngoleuni'r nefoedd?

Gweddi

Arglwydd, wrth i mi feddwl am yr holl bobl sydd wedi eu meddiannu gan dy Ysbryd di drwy'r canrifoedd, sydd wedi gweithio mor effeithiol ar y ddaear oherwydd eu bod yn siŵr o'r nefoedd, yr wyf am eu dilyn. Caniatâh yn enw Iesu Grist. Amen.